



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb gadarnhau
Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
15 Medi 2021 am 09:30**

Ystafell 3.7 Capital Quarter a thrwy Microsoft Teams

Yn bresennol		
Dyfed Edwards	(DE)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Yn bresennol:		
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr (Cyrhaeddodd am 10:30)
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol, Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Mark Dickinson	(MD)	Cydweithrediad GIG Cymru (Ar gyfer Eitem 3.2.3 yn unig)
Drew Evans	(DrE)	Pennaeth Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg (IM and T)
Angela Fisher	(AF)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Lucy Jugessur	(LJ)	Rheolwr Archwilio Ariannol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol (ar gyfer eitem 3.1 yn unig)
Verity Winn	(VW)	Archwilio Cymru

Ysgrifennydd		
Andrew Morton	(AM)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
Ymddiheuriadau:		
Andrew Cottom	(AC)	Cynghorydd Annibynnol
Jane Matthews	(JM)	Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig, Nyrsio o Ansawdd a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd o'r Fforwm Partneriaeth Staff

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30

ACGC 150/2021 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Agorodd DE y cyfarfod a chrosawodd bawb a oedd yn bresennol, a nododd, oherwydd yr ymateb parhaus i COVID-19 ac mewn perthynas â'r canllawiau Cenedlaethol ar waith, bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad hwn yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol.

Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

ACGC 151/2021 Datganiadau o Fuddiannau

Atgoffodd HB y Pwyllgor o'i datganiad oedd wedi'i gofnodi ar y Gofrestr, gan fod ganddi aelod agos o'r teulu a oedd yn gweithio fel rhan o gydweithrediad y GIG, gan nodi'n benodol Archwiliad Mewnol Ymgynghorol Caffael cydweithrediad y GIG ar yr Agenda.

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

ACGC 152/2021 Eitemau ar gyfer Sicrwydd

ACGC 152.1/2021 Seiberddiogelwch

Derbyniodd y Pwyllgor bapur diweddarau'r Pwyllgor Archwilio Seiberddiogelwch (cyf 3.1 150921 ACGC).

Rhoddodd cyflwyniad gan DrE ddiweddariad ar y Gyfarwydddeb Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS), a chanlyniadau ymarfer gwe-rwydo a gynhaliwyd, a gyflwynwyd yng nghyd-destun digwyddiad a ddigwyddodd o fewn rhwydwaith cyfrifiadurol Gofal Iechyd Gweriniaeth Iwerddon.

Tynnodd DrE sylw at y canlynol: -

- Crynodeb o'r cyflawniadau TG yn ystod y chwe mis blaenorol, gan gynnwys:

- Gwelliannau rheoli technegol ar gyfer trwsio neu osod apiau hylendid seiber, gwella blociau hidlo e-bost, ffrydiau ychwanegol i'r system Reoli Digwyddiadau Diogelwch (SIEM) ac arwahanu rhwydweithiau;
- Gwella ymwybyddiaeth defnyddwyr ac ymarferion gwe-rwydo;
- Cydymffurfio â chyfnodau 1 a 2 NIS.
- Roedd y gwaith wedi canolbwyntio ar chwe maes gwaith:
 - Rheoli hunaniaeth;
 - Gwelliannau Hylendid Seiber;
 - Gweithredu ISE (segmentu rhwydwaith);
 - Ffrwd Reoli Digwyddiadau Diogelwch (SIEM);
 - Arwahanriad waliau tân; ac
 - Adolygiadau o gapasiti a chaledwedd etifeddol.
- Hyfforddiant Statudol a Gorfodol – Roedd yn ofynnol i holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgymryd â Hyfforddiant Seiberddiogelwch gorfodol fel rhan o'r hyfforddiant statudol a gorfodol o fewn y Cofnod Staff Electronig (ESR).

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y gwersi hynny wedi'u dysgu a'u gweithredu yn dilyn yr ymosodiad yng Ngweriniaeth Iwerddon. Sicrhodd DrE y Pwyllgor fod camau wedi'u cymryd i liniaru'r posibilrwydd o ymosodiad tebyg i'r hyn a brofwyd yn Iwerddon, gan gynnwys gosod meddalwedd ychwanegol.

Nododd HG fod y gwaith a wnaed gan DrE a'r tîm TG yn parhau, ac yn un o adroddiadau naratif parhaus a'u bod ar yr un pryd yn parhau i ddiweddarau systemau i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ar y gwaith a wnaed yn yr adran TG, a chytunodd i gael diweddariad pellach ar gynnydd mewn chwe mis.

Cam Gweithredu: LB i ychwanegu i'r cynllun gwaith

ACGC 152.2/2021 Archwiliad Mewnol

ACGC 152.2.1/2021 Adroddiadau Archwilio Mewnol

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol canlynol (cyf 3.2.1a, b ac c ACGC 150921):

- Cynllun Gweithredol;
- Lles staff;
- Oriau Ychwanegol a Goramser.

Cynllun Gweithredol

Roedd Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol y Cynllun Gweithredol wedi cael sicrwydd sylweddol; atgoffodd DE y Pwyllgor fod hwn yn bwynt pwysig i'w nodi o ystyried yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw gamau er mwyn gwella, gan nodi bod mecanweithiau adrodd digonol ar waith i fonitro'r cerrig milltir o fewn y Cynllun Gweithredol.

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol y Cynllun Gweithredol.

Lles Staff

Roedd adroddiad terfynol yr Archwiliad Mewnol Lles Staff wedi cael sicrwydd rhesymol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dwy flaenoriaeth ganolig, ac un argymhelliad blaenoriaeth isel.

Mewn perthynas â'r arolygon staff a gynhaliwyd, nodwyd bod y ddau arolwg wedi'u cwblhau ar wahanol adegau o'r flwyddyn, a allai olygu bod amrywiadau tymhorol yn y data a gasglwyd. Dywedodd NL wrth y Pwyllgor fod yr amseriadau wedi'u dewis i ategu amseriad arolygon sefydliadol eraill er mwyn sicrhau nad oedd gormod ar unwaith.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch presenoldeb mewn cyfarfodydd nad oedd rhai adrannau wedi'u cynrychioli, sicrhaodd NL y Pwyllgor fod materion yn ymwneud â phresenoldeb wedi cael sylw a nodwyd bod presenoldeb wedi gwella'n sylweddol.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad terfynol yr Archwiliad Mewnol Lles Staff.

Oriau Ychwanegol a Goramser

Derbyniodd yr adroddiad Archwilio Oriau Ychwanegol a Goramser Terfynol sicrwydd cyfyngedig. Gofynnwyd i'r adroddiad gael ei gynnal gan Archwilio Mewnol oherwydd y nifer cynyddol o hawliadau goramser oherwydd y ffyrdd o weithio a weithredwyd o fewn y pandemig. Gwelwyd na ddilynwyd y broses gymeradwyo bob amser ac nad oedd craffu ar y gweithlu yn gyson drwy'r pandemig, ac roedd angen gwneud y canllawiau ar gyfer cwblhau'r ffurflenni yn gliriach.

Gofynnodd y Pwyllgor am feintio'r ffigurau yn yr adroddiad. Sicrhaodd NL y Pwyllgor fod y niferoedd dan sylw yn llai na 12 ac ar hyn o bryd dim ond un achos oedd yn parhau i gael ei ymchwilio. Dywedodd AF fod croeswiriw wedi digwydd er mwyn sicrhau bod hawliadau wedi'u gwneud yn gywir. Dywedodd HG wrth y Pwyllgor mai un pryder pwysig oedd nad oedd staff yn gweithio oriau gormodol a bod seibiannau'n cael eu cymryd yn ôl yr angen. Pwysleisiwyd bod y materion a amlygwyd yn deillio'n uniongyrchol o ymateb i'r pandemig, a bod y systemau priodol bellach ar waith.

Dywedodd PD yn unol â'r arfer arferol, byddai papur Archwilio Mewnol dilynol yn cael ei gynhyrchu ymhen chwe mis, a fyddai'n ystyried sut yr oedd y sefydliad wedi mynd i'r afael â'r camau a argymhellwyd ar gyfer gwella. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor maes o law.

Awgrymodd AF y byddai adolygiad cynharach o'r camau a roddwyd ar waith yn cael ei groesawu gan Archwilio Mewnol, yn enwedig gan fod ffurflenni newydd wedi'u datblygu. Cytunodd PD i gysylltu ag AF i drafod hyn.

Cam Gweithredu: PD/AF

Dywedodd PD wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad hwn wedi'i gyflwyno yn y fformat newydd, cliriach, ac y byddai pob adroddiad yn y dyfodol yn defnyddio'r fformat hwn.

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad archwilio mewnol terfynol ar gyfer Oriau Ychwanegol a Thaliadau Goramser.

ACGC 152.2.2/2021 Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol (cyf 3.2.2 ACGC 150921).

Tynnodd PD sylw'r Pwyllgor at y gwaith parhaus sydd ar y gweill ac atgoffodd y Pwyllgor y byddai cyhoeddi adroddiadau, er i'r cynllun gael ei ddangos, yn dibynnu ar unrhyw newid mewn ymateb i'r pandemig.

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad.

ACGC 152.2.3/2021 Cyngori ar Gaffael, Archwilio Mewnol

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Cyngori ar Gaffael Cydweithredol, Archwilio Mewnol (cyf 3.2.3 150921 ACGC).

Atgoffodd DE y Pwyllgor fod Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru yn gorff a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn gyfrifol am ei gydymffurfiaeth ei hun â pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau perthnasol.

Crynowyd yr adolygiad cyngori gan PD; cwmpas yr adolygiad oedd y broses lywodraethu a ddilynwyd mewn perthynas ag ymrwymïadau ariannu a threfniadau cytundebol a etifeddwyd gan Fyrddau Iechyd penodol gan y Cydweithrediad ar gyfer cyfres o brosiectau/rhaglenni sy'n gyson â chylch gwaith y Cydweithrediad, ac ystyried eu bod yn cyd-fynd â'i weithdrefnau ei hun er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r trafodion ariannol sy'n cael eu gwneud drwy'r Cydweithrediad ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd yn canolbwyntio ar sampl o ymrwymïadau a threfniadau cytundebol a wnaed gyda sefydliadau y tu allan i GIG Cymru ac a etifeddwyd gan y Cydweithrediad mewn perthynas â'r grwpiau gweithredu.

Roedd canfyddiadau'r adolygiad yn awgrymu camau/camau gweithredu i'r Cydweithrediad eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adolygiad. Cydnabuwyd bod yr adroddiad wedi'i ysgrifennu ym mis Mai a bod pethau wedi symud yn eu blaenau'n sylweddol ers hynny, a bod llawer o waith wedi'i wneud gan y Cydweithrediad gyda chymorth y tîm caffael yn y Cydwasanaethau a staff yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ymatebodd MD i'r adroddiad a rhoddodd ddiweddariad i'r Pwyllgor;

- Roedd y Cydweithrediad i gyflwyno papur i'w corff llywodraethu, Grŵp Gweithredol y Cydweithrediad, yn cynnwys Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd, yr Ymddiriedolaethau a'r Awdurdodau Iechyd Strategol yn ei gyfarfod sydd i ddod ym mis Medi.

Roedd y Cydweithrediad yn sicrhau bod yr holl wariant wedi'i wneud yn briodol yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

Gwnaed gwaith sylweddol gan staff yn y Bwrdd Cydweithredol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Byrddau Iechyd, a oedd wedi golygu bod setliad ariannol wedi bod yn bosibl ym mhob achos.

Roedd cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol yn parhau, roedd ffrydiau ariannu yn ansicr ac roedd disgwyl cadarnhad o rai ffrydiau o hyd. Mae'r holl staff wedi cael gwybod am ofynion caffael a bod yn rhaid i bob caffaeliad gael llwybr archwilio sy'n mynd yn ôl at benderfyniad a wnaed gan grŵp a gyfansoddwyd yn ffurfiol sydd â'i ddogfennaeth wedi'i chofnodi'n briodol.

Roedd trafodaethau ar y gweill gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) a'r Cydwasanaethau gyda'r posibilrwydd o ddod i gytundeb â'r cyrff o ffurfio cytundeb fframwaith. Roedd angen eglurder ffrydiau incwm er mwyn i hyn fynd rhagddo.

Rhoddodd MD sicrwydd i'r Pwyllgor fod Cydweithrediad y GIG mewn sefyllfa i ddatgan bod ganddynt oruchwyliaeth briodol o arian, roedd eu penderfyniadau'n dryloyw ac roedd gwariant a chyllidebau'n cael eu goruchwyllo'n briodol a'u hadrodd yn gywir o fewn y Cydweithrediad ac yn allanol.

Diolchodd DE i MD am ei ddull gweithredu ac am ei ddiweddariad llafar a gofynnodd beth oedd y trefniant a'r broses ar gyfer rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru i dderbyn adroddiadau gan y Cydweithrediad ac i gael sicrwydd. Awgrymodd TC y dylid gweithredu cyfarfod chwe mis rhwng TC, HG ac MD gydag adolygiad bob 12 mis. Yn y tymor byr, ar ôl tri mis, dylid cyflwyno adroddiad cynnydd ar y cynllun gweithredu i TC a HG i'w adolygu a byddai hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod chwe misol cyntaf.

Gofynnodd DE, yn ogystal â'r cynigion hynny, y dylai MD adrodd ar unwaith i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol am unrhyw achos o bryder a allai godi fel y gellir ymchwilio iddo cyn gynted â phosibl.

Nododd HB fod MD wedi dod â'i bryderon i'r Pwyllgor ac roedd wedi bod yn ymarfer gwerthfawr wrth ddatrys yr hyn a oedd wedi datblygu'n fater cymhleth.

Diolchodd DE i MD am fod yn bresennol ac am drafod y mater gyda'r Pwyllgor. **Derbyniodd** y Pwyllgor yr adroddiad cynghori, gan nodi'r cytundeb i MD adrodd unrhyw beth sy'n peri pryder i'r Pwyllgor wrth i'r camau y cytunwyd arnynt gael eu gweithredu.

ACGC 152.3/2021**Egwyl****ACGC 152.4/2021****Archwilio Allanol**

Dywedodd VW wrth y Pwyllgor nad oedd dim i'w adrodd i'r Pwyllgor.

ACGC 152.5/2021**Adroddiad Perfformiad Cyllid**

Rhoddodd HG ddiweddariad llafar, gan ddweud wrth y Pwyllgor fod y sefydliad yn rhagweld sefyllfa adennill costau, ar ôl cyflwyno adroddiadau 'Mis Pump' i

Lywodraeth Cymru yn ddiweddar. Roedd gwariant y rhaglen gyfalaf yn parhau yn ôl yr arfer. Roedd y cyfarwyddwyr wrthi'n datblygu cynlluniau gwariant manwl.

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad llafar.

ACGC 152.6/2021

Adroddiad Caffael

Derbyniodd y Pwyllgor bapur yr Adroddiad Caffael (cyf 3.6 ACGC 150921). Esboniodd AF yn fyr y Camau Gweithredu Tendr Sengl (STAs) a'r Camau Gweithredu Dyfynbris Sengl (SQAs) a restrir yn yr atodiadau; roedd colofn ychwanegol wedi'i chynnwys yn Adran 3 i dynnu sylw at nifer y nodiadau ffeil, cymeradwyaeth ôl-weithredol drwy gaffael.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurder ynghylch defnyddio hysbysiad tryloywder. Esboniodd AF mai Hysbysiad Tryloywder Ex Ante Gwirfoddol (VEAT) oedd hwn, a ddefnyddiwyd i hysbysu'r farchnad am fwriad a chyfiawnhad dros ddyfarniad uniongyrchol.

Ymatebodd HG i gwestiwn ynghylch lefelau staffio o fewn y Tîm Cyllid, a dywedodd fod cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu gan y Cydwasanaethau yn ystod y pandemig, ac na allai cynnal lefel y gwaith ar y gyfradd ddwys honno barhau heb gefnogaeth y Cydwasanaethau, neu sicrhau staff ychwanegol o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod gweithgarwch caffael yn cael ei wneud yn unol â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

ACGC 152.7/2021

Colledion a Thaliadau Arbennig

Derbyniodd y Pwyllgor y papur Colledion a Thaliadau Arbennig (cyf 3.7 150921 ACGC).

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd lefel y taliadau ex-gratia yn peri pryder. Cadarnhaodd AF fod y rhain o lefelau arferol ac awgrymodd y gellid darparu graff tueddiadau yn y dyfodol. Gofynnodd DE a ellid monitro'r mater hwn a'i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor pe bai unrhyw feysydd sy'n peri pryder yn cael eu nodi.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod yr holl golledion a thaliadau arbennig wedi'u gwneud yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

ACGC 152.8/2021

Y Gofrestr Risg Gorfforaethol

Derbyniodd y Pwyllgor y papur diweddar Risg Corfforaethol (cyf 3.8a a b 150921 ACGC). Dywedodd RBW wrth y Pwyllgor am waith sylweddol parhaus i ddiweddarau'r Gofrestr Risg Gorfforaethol i adlewyrchu newidiadau parhaus yn ymwneud â'r pandemig.

Derbyniwyd gwaith diweddar i ddiweddarau Risg 004, 100 a 101 yn gynharach yn y bore gan NL; roedd tîm adnoddau a recriwtio pwrpasol ar waith i gefnogi sefydlu achosion busnes ac i sicrhau bod staff yn cael eu sefydlu'n llawn. Yn ogystal, roedd

cymorth a hyfforddiant yn cael eu darparu i reolwyr llinell. O ran Risg 100, roedd gwaith yn mynd rhagddo i wella cydymffurfiaeth; roedd Risg 101 yn cael ei hystyried yng nghyd-destun yr adolygiad hirdymor o'r strategaeth pobl.

Roedd Risg 001, a oedd yn ymwneud â gwasanaethau sgrinio, yn dibynnu ar gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yr oedd disgwyl am benderfyniad ar ei gyfer. Nododd AF fod cynnydd gyda'r cynllun adfer sgrinio yn parhau yn y cyfamser gan ddefnyddio llithriad y cytunwyd arno ar fuddsoddiadau eraill nes y derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ar y cyllid.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch statws y Gofrestr Risg Gorfforaethol yng ngoleuni'r gwaith parhaus o adnewyddu'r dull o ymdrin â risg. Dywedodd RBW wrth y Pwyllgor fod cynlluniau parhaus yn diweddarau'r cofrestrau risg yng nghyd-destun adferiad, ac i ddatblygu cynllun datblygu risg tair blynedd.

Derbyniodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Gorfforaethol a **derbyniodd** y newidiadau arfaethedig i ddyddiadau'r targed gweithredu.

ACGC 152.9/2021

Adroddiad Chwarterol Llywodraethu Gwybodaeth (C4 2020/21) a (C1 2021/22)

Derbyniodd y Pwyllgor bapurau Adroddiad Chwarterol Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer Chwarter 4 2020/21 a Chwarter 1 2021/22 (cyf 3.9a, b c a d ACGC 150921).

Tynnodd RBW sylw at y canlynol:

- Roedd cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant statudol a gorfodol Llywodraethu Gwybodaeth yn is na'r targed o fewn y Bwrdd a'r gyfarwyddiaeth Gorfforaethol; roedd y gymhariaeth rhwng yr adroddiadau chwarterol yn dangos sefyllfa sy'n gwella. Nododd HB fod cydymffurfiaeth wedi gwella o fewn y gyfarwyddiaeth, a bod hyd yn oed mân newidiadau wedi cael effaith sylweddol fel tîm bach;
- Tynnwyd sylw at faint o amser a dreuliwyd ar geisiadau rhyddid gwybodaeth a cheisiadau am fynediad pwnc; roedd y tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi gweithio i ddod o hyd i ffyrdd o symleiddio'r broses er mwyn gwella hyn.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y System Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth yn gweithio'n effeithiol.

ACGC 152.10/2021

Diweddariad ar Dorri Data

Derbyniodd y Pwyllgor bapurau diweddarau ar Dorri Data (cyf 3.10a a b 150921 ACGC), yn cyflwyno'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu a ddatblygwyd mewn ymateb i'r toriad data yn y Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC) ym mis Awst 2020.

Tynnodd RBW sylw at:

- Gynnydd yn cael ei wneud o ran achosion unigol o dorri data; bod gwaith yn parhau neu wedi'i oedi mewn rhai meysydd oherwydd rhesymau allanol.

- Awgrymwyd Adolygiad Cymheiriaid, nid oedd y corff a nodwyd i gynnal yr adolygiad wedi gallu cwblhau'r gwaith oherwydd cyfyngiadau amser. Cynhaliwyd trafodaethau'n ddiweddar gydag Iain Bell i fynd i'r afael â hyn a rhoddwyd sylw i'r gwaith hwn drwy brosesau Llywodraethu Integredig fel cynllun peilot y model.

Gofynnodd y Pwyllgor am syniad pryd y byddai'r cynllun gweithredu'n cael ei gwblhau, a'i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor, nododd RBW y rhagwelir y byddai'r camau a restrwyd yn cael eu cwblhau erbyn y targed ar 31 Rhagfyr 2021, fodd bynnag, pwysleisiodd fod y dyddiad hwn yn dibynnu ar y sefydliad(au) allanol yn gallu cynnal eu hadolygiad cymheiriaid

Gofynnodd y Pwyllgor am roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gweithredu Torri Data yn ei gyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2022.

Cam Gweithredu: RBW / LB

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyriwyd** a chymerwyd **sicrwydd** ar gynnydd y cynllun gweithredu ar dorri data.

ACGC 152.11/2021 Diweddariad Llywodraethu Integredig

Derbyniodd y Pwyllgor y papur diweddarau Llywodraethu Integredig (cyf 3.11 150921 ACGC).

Amlinellodd yr adroddiad statws presennol y gwaith sy'n cael ei wneud; atgoffodd RBW y Pwyllgor am y ddau faes a ddewiswyd ar gyfer y peilot ar gyfer y Llywodraethu Integredig - y torri data a'r ymateb i'r pandemig a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno ar gyfer yr astudiaethau hyn. Nod y cynlluniau peilot oedd profi pa mor ymarferol yw'r model i Iechyd Cyhoeddus Cymru; byddai canfyddiadau manwl, gweithredol y cynlluniau peilot yn cael eu crynhoi a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn ddiweddarach.

Gofynnodd y Pwyllgor, fel rhan o'r diweddariad hwn ar y cynlluniau peilot, am gynnwys arwydd o effaith y Model Llywodraethu Integredig, megis amlinelliad o'r gwelliannau a nodwyd o ganlyniad, neu unrhyw newidiadau i ymarfer.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ar gynnydd y gwaith ar y model Llywodraethu Integredig.

ACGC 152.12/2021 Papur Diweddarau'r Datganiadau o Fuddiannau

Derbyniodd y Pwyllgor papur diweddarau'r Datganiad o Fuddiannau (cyf 3.12a, b, c a d ACGC 150921). **Derbyniodd** y Pwyllgor yr adroddiad.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Derbyn sicrwydd** ar weithredu'r Polisi Safonau Ymddygiad a'r Datganiadau o Fuddiannau, Rhoddion, Lletygarwch, Honoraria a'r Weithdrefn Noddi.

- **Nodi** nad oedd unrhyw feysydd sy'n peri pryder i'w dwyn i sylw'r Pwyllgor.

ACGC 152.13/2021 Cofrestr Risg Strategol - Diweddariad am y Broses

Derbyniodd y Pwyllgor bapur diweddarau'r Gofrestr Risg Strategol (cyf 3.13 ACGC 150921). Nododd RBW fod y Bwrdd wedi cytuno y cytunwyd bod angen adolygu ac ailfynegi'r 'Risgiau Strategol' yng nghyd-destun yr ymateb i a'r adferiad wedi'r Ymateb COVID-19. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, nodwyd pum 'Risg Strategol' newydd a chytunwyd wedyn ar y disgrifyddion risg gan y Bwrdd gyda'r ddealltwriaeth y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud i gwblhau'r rheolaethau a nodi camau priodol i liniaru'r 'Risgiau Strategol' hyn sydd newydd eu nodi

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- cymryd **sicrwydd** bod y gwaith o ddatblygu'r Gofrestr Risg Strategol Dros Dro a'i fformat yn mynd rhagddo ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo ym mis Medi 2021.

ACGC 153/2021 Eitemau i'w Cymeradwyo

ACGC 153.1/2021 Log Gweithredu Archwilio Mewnol

Derbyniodd y Pwyllgor y Log Gweithredu Archwilio Mewnol (cyf. 4.1a a b ACGC 150921). Hysbysodd LB y Pwyllgor o gynnydd ers i'r adroddiad gael ei gyflwyno ddiwethaf gerbron y Pwyllgor ar 5 Mai 21.

Atgoffodd DE y Pwyllgor, yn ystod y pandemig, ei fod wedi derbyn y byddai oedi wrth weithredu argymhellion, ac felly wedi cymeradwyo nifer o newidiadau i'r dyddiadau cau yn y gorffennol. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn disgwyl gweld y sefyllfa hon yn newid wrth i'r sefydliad symud i ganolbwyntio ar adferiad.

Gofynnodd DC a ellid cyflwyno system goleuadau traffig yn y dyfodol i ddangos y tebygolrwydd a fyddai camau gweithredu'n cael eu bodloni o fewn y terfyn amser a bennwyd. Cytunodd HB â'r awgrym hwn, ac ychwanegodd y gellid tynnu lefel y risg allan i'r crynodeb er mwyn gwneud hyn yn gliriach gyda'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn yr atodiad.

Cymeradwydd y Pwyllgor y cais i newid y dyddiad ar ddeg cam gweithredu a **chymeradwydd** gau saith cam gweithredu.

ACGC 153.2/2021 Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd

Derbyniodd y Pwyllgor bapur Camau Gweithredu'r Cadeirydd (4.2 ACGC 150921). Cymeradwywyd tri pholisi gan Gamau Gweithredu'r Cadeirydd ym mis Gorffennaf oherwydd yr angen i fabwysiadu Polisiau Cymru Gyfan cyn dyddiad y Pwyllgor nesaf.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nodi'r** achlysur lle cymerwyd Camau Gweithredu'r Cadeirydd;
- **Derbyn sicrwydd** bod y camau wedi'u cymryd yn unol ag Adran 2 o'r Rheolau Sefydlog;

- **Cadarnhau** camau gweithredu'r Cadeirydd i gymeradwyo:
 - (1) Polisi Llywodraethu Gwybodaeth Cymru Gyfan
 - (2) Polisi Diogelwch Gwybodaeth Cymru Gyfan
 - (3) Polisi Cymru Gyfan ar gyfer Defnyddio'r Rhyngrwyd

ACGC 153.3/2021 Cofnodion, Log Gweithredu a Materion sy'n Codi

Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf (4.3a, b ac c ACGC 150921).

Derbyniwyd y cofnodion a dderbyniwyd fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Ystyriodd y Pwyllgor y log gweithredu a **chytunodd** i gau pedwar pwynt gweithredu.

ACGC 154/2021 Eitemau i'w Nodi

Derbyniodd y Pwyllgor y Papur Adroddiad Cynnydd Gwrth-Dwyll (cyf. 5.1 ACGC 150921).

ACGC 155/2021 Gweinyddiaeth i Gloi

ACGC 155.1/2020 Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dydd Mercher, 15 Ionawr 2022, 09:30, Ystafell 3.7 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Capital Quarter a thrwy Microsoft Teams

ACGC 155.2/2020 Cyhoeddi Papurau

Nododd y Pwyllgor fod papurau'r Pwyllgor, ac **eithrio**:

- 3.1 Seiberddiogelwch
- 3.6 Adroddiad Caffael
- 3.7 Colledion a Thaliad Arbennig;

ACGC 155.3/2020 Adborth y Pwyllgor

Diolchodd DE i bawb am eu cyfraniadau yn ystod y cyfarfod, a rhoddodd y rhai a oedd yn bresennol rywfaint o adborth ynghylch rhedeg y cyfarfod yn effeithiol. Gwahoddodd DE unrhyw adborth pellach drwy e-bost ar ôl y cyfarfod.

Daeth y Cyfarfod i ben am 12:10